



Cwestiynau Cyffredin

Gobeithiwn fod y dudalen hon yn ateb rhai o'ch cwestiynau ynglŷn â'r Caws Mawr yng Nghaerffili.

Peidiwch ag anghofio i ymweld ag ein gwefan am fwy o wybodaeth ac i lawrlwytho copi o Ganllaw Gŵyl y Caws Mawr 2019 - www.bigcheese caerphilly.co.uk

Os na allwch chi ddod o hyd i ateb i'ch cwestiwn ar y wefan, mae croesi i chi gysylltu â Chanolfan Ymwelwyr - Caerffili ar 029 2088 0011/CroesoCaerffili@caerffil.gov.uk a fydd yn hapus i helpu.

1. Beth yw oriau agor y digwyddiad?

Dydd Gwener 26 Gorffennaf 3pm - 10pm

Dydd Sadwrn 27 Gorffennaf 10am - 9pm

Dydd Sul 28 Gorffennaf 10am - 8pm

2. A ganiateir cŵn?

Mae cŵn yn cael mynd i'r Caws Mawr, ond ni chaniateir iddynt fynd i mewn i'r pebyll mawrion, ardal y traeth nac ardaloedd y ffair. Caniateir cŵn tywys ym mhob man.

3. Pa ddyddiau fydd y stondinau yno?

Bydd y stondinau ar agor ar ddydd Sadwrn 27 a dydd Sul 28 Gorffennaf yn unig.

4. Oes yna Barcio a Theithio

Oes. Bydd gwasanaeth Parcio a Theithio yn gweithredu o Ysgol Cenydd Sant ac Ysgol Uwchradd Bedwas ar ddydd Sadwrn 27 a dydd Sul 28 Gorffennaf, 10am - 8pm, a bydd yn costio £5 y car.

Yn ogystal â'r gwasanaethau Parcio a Theithio a restrir uchod, bydd hefyd gyfleuster Parcio a Theithio yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni safle'r Gwyndy ar Heol Pontygwindy ddydd Sadwrn 27 a dydd Sul 28 Gorffennaf, 10am - 8pm, a bydd yn costio £5 y car.

5. A oes bysiau am ddim yn y fwrdeistref sirol i'r Caws Mawr eleni?

Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau cyllidebol parhaus, mae'r cyngor wedi gwneud y penderfyniad anodd i dynnu'r gwasanaeth bws am ddim i Wyl y Caws Mawr yng Nghaerffili yn ôl. Byddem yn annog ymwelwyr i fanteisio ar y cysylltiadau

trafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael i ganol y dref a safle'r digwyddiad. Hoffai'r cyngor ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra a achosir.

6. A oes tâl i fynd i mewn i'r digwyddiad?

Mae'r digwyddiad yn RHAD AC AM DDIM trwy'r penwythnos.

7. A oes angen talu i fynd i mewn i Gastell Caerffili?

Nac oes, mae mynediad am ddim i Gastell Caerffili ddydd Sadwrn 27 a dydd Sul 28 Gorffennaf.

8. Pryd mae'r tân gwyllt?

Mae'r tân gwyllt yn dechrau am 10pm ddydd Gwener 26 Gorffennaf ac yn para am oddeutu 10 munud.

9. Pryd mae Ras y Caws Mawr?

Mae'r ras yn dechrau am 6.30pm ddydd Gwener 26 Gorffennaf.

10. Pryd mae'r ffair yn agored i'r cyhoedd ar ddydd Gwener?

Mae'r ffair yn agor am 3pm ac yn cau am 10pm ddydd Gwener 26 Gorffennaf.

11. Pryd ydy'r reidiau ffair yn hanner pris?

Rhwng 3pm a 6pm ar ddydd Gwener 26 Gorffennaf yn unig.

12. Pryd mae'r adloniant?

Mae pob rhaglen adloniant ac ailberfformiad ar gael i'w gweld ar y wefan o dan 'Adloniant, y Castell a Cherddoriaeth' www.caerffilicawsmawr.co.uk.

13. A ganiateir alcohol?

Ni ellir dod ag unrhyw alcohol i safle digwyddiad y Caws Mawr. Bydd staff diogelwch yn monitro pob mynedfa ac yn sicrhau bod alcohol yn cael ei gymryd oddi wrth unrhyw ymwelwyr sy'n dod ag alcohol i mewn. Gellir prynu alcohol i'w yfed ar y safle o far y safle o fewn ardal benodol yn unig.

14. Pa gyfleusterau sydd gennych?

Mae toiledau wedi'u lleoli ar ddau ben y safle, gan gynnwys toiledau hygyrch. Mae pabell plant coll ar y safle gyda chyfleusterau newid a bwydo babanod.

15. A oes pwynt arian parod?

Lleolir pwyntiau arian parod ar Heol Caerdydd yng nghanol tref Caerffili, dim ond 5 munud ar droed.